

CAFFAEL TIR, PRIFFYRDD, CYMRU

200- Rhif

GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFORDD CAERDYDD I LAN CONWY (YR A470) - GWELLIANT PENLOYN I DAN LAN) 200-

DEDDF PRIFFYRDD 1980 a DEDDF CAFFAEL TIR 1981

Wedi'i wneud 200-

Mae Gweinidogion Cymru (a elwir 'yr awdurdod caffael' yn y Gorchymyn hwn) yn gwneud y Gorchymyn canlynol-

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, mae'r awdurdod caffael, o dan adrannau 239, 240, 246, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980(1) ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981 a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 Atodlen 2 i'r Ddeddf honno(2), a phob pŵer galluogi arall (3), wedi'i awdurdodi drwy hyn i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd dros dir a ddisgrifir ym mharagraff 2 er mwyn:

- (a) adeiladu'r gefnffordd newydd i'r gogledd o Lanrwst rhwng Penloyn a Than Lan yng Nghymunedau Llanrwst a Llanddaged a Maenan ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn unol â Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan) 200-;
- (b) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynedfeydd newydd i fangreoedd yng Nghymuned Llanddaged a Maenan a Bwrdeistref Sirol Conwy yn unol â Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan, Ffyrdd Ymyl) 200-;
- (c) gwneud gwaith ar gyrsiau dŵr mewn cysylltiad ag adeiladu'r gefnffordd newydd ac adeiladu a gwella priffyrdd eraill a

(1) 1980 p.66

(2) 1981 p.67

(3) Yn rhinwedd O. S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llwodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn wedi'u trosglwyddo bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gwneud y gwaith arall a grybwyllwyd uchod;

- (ch) eu defnyddio gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwella'r priffyrdd hynny a gwneud y gwaith arall a grybwyllwyd uchod; a
- (d) lliniaru unrhyw effeithiau andwyol a fydd gan fodolaeth rhai o'r priffyrdd y bwriedir eu hadeiladu neu eu gwella neu'r defnydd o'r priffyrdd hynny ar eu hamgylchoedd.

2. (1) Y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn ac sydd wedi'i amlinellu a'i ddangos â lliw pinc ag ymyl coch ar y map a gafodd ei baratoi'n ddyblyg, a'i selio â sêl gyffredin yr awdurdod caffael a'i farcio 'Y map y cyfeirir ato yng Ngorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) - Gwelliant Penloyn i Dan Lan) 200-' yw'r tir yr awdurdodir ei brynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn.

(2) Disgrifir yr hawliau newydd dros dir sydd i'w prynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn yn yr Atodlen a dangosir y tir â lliw glas ag ymyl coch ar y map a enwyd.

3. Mae copïau o'r Gorchymyn Cefnffordd a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl gyda'r planiau sy'n mynd gyda hwy wedi'u hadneuo ynghyd â'r map y cyfeirir ato yn Erthygl 6.

4. Ymgorfforir drwy hyn Rannau II a III o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 yn y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r addasiadau canlynol, sef bod rhaid dehongli cyfeiriadau yn y Rhannau hynny o'r Atodlen honno at yr ymgymeriad fel cyfeiriadau at y tir yr awdurdodir ei brynu ac at unrhyw adeiladau neu waith a adeiladwyd neu sydd i'w adeiladu arno.

5. At ddibenion y darpariaethau yn Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981, fel y'u hymgorfforir yn y Gorchymyn hwn, y pellter a ragnodir mewn perthynas ag unrhyw wythien o fwynau sy'n gorwedd o dan y tir sy'n cyffinio â'r gwaith sydd i'w godi ar y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn fydd y pellter ochrol o'r gwaith hwnnw ar bob ochr i'r gwaith hwnnw ag sy'n gymesur ar bob pwynt ar hyd y gwaith hwnnw â hanner dyfnder yr wythien o dan wyneb naturiol y ddaear ar y pwynt hwnnw neu 37 metr, p'un bynnag yw'r mwyaf.

6. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr 'y gefnffordd' ('*the trunk road*') yw Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470).

ystyr 'y Gorchymyn Cefnffordd' (*the Trunk Road Order*) yw 'Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan) 200-';

ystyr 'y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl' (*the Side Roads Order*) yw 'Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan, Ffyrdd Ymyl) 200-'.

ystyr 'y map' (*the map*) yw'r map sydd wedi'i farcio 'Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) - Gwelliant Penloyn i Dan Lan) 200-' ac a lofnodwyd gan swyddog i'r awdurdod caffael, a'i selio â sêl gyffredin yr awdurdod caffael a'i adneuo yn Uned Storio ac Adfer Cofnodion Llywodraeth Cynulliad Cymru (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd.

7. Enw'r Gorchymyn hwn yw 'Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) - Gwelliant Penloyn i Dan Lan) 200-'.

Dilysir SÊL GYFFREDIN GWEINIDOGION CYMRU a osodir yma gan

Llofnodwyd gan un o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ran Gweinidogion Cymru.

Dyddiedig

200-

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL
GWEINIDOGION CYMRU (CEFNNFFORDD
CAERDYDD I LAN CONWY (YR A470) -
GWELLIANT PENLOYN I DAN LAN) 200-**

**PRYNU'N ORFODOL DIR A HAWLIAU
NEWYDD RHWNG PENLOYN A THAN LAN I'R
GOGLEDD O LANRWST.**

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi paratoi ar ffurf drafft 'Gorchymyn Prynu Gorfodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) - Gwelliant Penloyn i Dan Lan) 200-', o dan adrannau 239, 240, 246, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981, a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno. Mae Gweinidogion Cymru ar fin gwneud y Gorchymyn hwn ac, os caiff ei wneud, bydd y Gorchymyn yn awdurdodi Gweinidogion Cymru i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd a ddisgrifir isod er mwyn: -

- (e) adeiladu'r gefnffordd newydd i'r gogledd o Lanrwst rhwng Penloyn a Than Lan yng Nghymunedau Llanrwst a Llanddoged a Maenan ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn unol â Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan) 200-;
- (f) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynedfeydd newydd i fangreoedd yng Nghymuned Llanddoged a Maenan a Bwrdeistref Sirol Conwy yn unol â Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan, Ffyrdd Ymyl) 200-;
- (g) gwneud gwaith ar gyrsiau dŵr mewn cysylltiad ag adeiladu'r gefnffordd newydd ac adeiladu a gwella priffyrdd eraill a gwneud y gwaith arall a grybwyllwyd uchod;
- (ch) eu defnyddio gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwella'r priffyrdd hynny a gwneud y gwaith arall a grybwyllwyd uchod; a
- (h) lliniaru unrhyw effeithiau andwyol a fydd gan fodolaeth rhai o'r priffyrdd y bwriedir eu hadeiladu neu eu gwella neu'r defnydd o'r priffyrdd hynny ar eu hamgylchoedd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft a'r map sy'n cyd-fynd ag ef ar bob adeg resymol o 5 Gorffennaf 2007 i 26 Gorffennaf 2007 yn y manau canlynol:

- Y Gangen Orchmynion, Yr Is-adran Polisi a Gweinyddu Trafnidiaeth, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd;
- Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adeiladau'r Llywodraeth, Dinerth Road, Bae Colwyn; a
- Llyfrgell Llanrwst, Plas yn Dre, Ffordd-yr-Orsaf, Llanrwst.

Rhaid i unrhyw wrthwynebiad i'r Gorchymyn drafft gael ei wneud mewn ysgrifen i'r Gangen Orchmynion, Is-adran Polisi a Gweinyddu Trafnidiaeth, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ cyn 26 Gorffennaf 2007, gan roi teitl y Gorchymyn, y cyfeirnod BZ 780030-312-1, seiliau'r gwrthwynebiad a chyfeiriad y gwrthwynebydd a'i fuddiannau yn y tir. Wrth baratoi gwrthwynebiad a datganiad o sail y gwrthwynebiad, dylid cadw mewn cof y gellir rhoi gwybod beth yw sylwedd unrhyw wrthwynebiad neu sylw i bobl eraill y gall y gwrthwynebiad neu'r sylw effeithio arnynt.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft a'r hysbysiad cyhoeddus yn <http://new.wales.gov.uk/legislation/?lang=cy> (dewiser 'Deddfwriaeth/Deddfwriaeth ddrafft/Offerynnau Anstatudol Drafft/Ymylon Ffyrdd a Gorchmynion Prynu Gorfodol yn unol â'r Ddeddf Priffyrdd').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan y Gangen Orchmynion, Yr Is-adran Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

DISGRIFIAD O'R TIR A'R HAWLIAU NEWYDD

SYLWER

- a. mae'r tir ym mhob eitem isod wedi'i ddynodi ar y map y cyfeirir ato yn y Gorchymyn drafft â'r rhif neu'r rhifau a welir gyferbyn â'r eitem honno isod.
- b. mae cyfeiriadau at berchenogaeth yn gyfeiriadau at berchenogaeth neu berchenogaeth honedig ar adeg paratoi'r Gorchymyn drafft a dim ond at ddibenion adnabod y tir y maent wedi'u nodi.

Yng Nghymuned Llanrwst

Tir pori a chorlan i'r gorllewin o'r Gefnffordd (yr A470) ac i'r de o'r eiddo a elwir Plas Madoc Lodge; hanner lled y Gefnffordd (yr A470) i'r de o'r eiddo a elwir Plas Madoc Lodge; oll ym mherchenogaeth Mrs E. Owen (Plotiau 1, 2 a 2a).

Rhan o lethr arglawdd rheilffordd a chwlfert i'r gorllewin o'r Gefnffordd (yr A470) ac i'r de o'r eiddo a elwir Plas Madoc Lodge; oll ym mherchenogaeth Network Rail (Plot 3).

Yng Nghymuned Llanddaged a Maenan

Rhan o hanner lled y Gefnffordd (yr A470) a thir prysgwydd i'r gorllewin o'r Gefnffordd (yr A470) ac i'r de o'r eiddo a elwir Plas Madoc Lodge; oll ym mherchenogaeth Mrs E. Owen (Plot 2b).

Rhan o lethr arglawdd rheilffordd, cwlfertau a gwelyau a glannau nentydd dienw i'r gorllewin o'r Gefnffordd (yr A470) a rhwng yr eiddo a elwir Plas Madoc Lodge a'r eiddo a elwir Tan Lan Crossing; oll ym mherchenogaeth Network Rail (Plot 3a).

Rhan o ardd yr eiddo a elwir Plas Madoc Lodge a rhan o hanner lled y Gefnffordd (yr A470); rhan o Barc a Gardd Hanesyddol Plas Madoc i'r dwyrain o'r Gefnffordd (yr A470) a rhan o hanner lled y Gefnffordd (yr A470) i'r gogledd o'r eiddo a elwir Plas Madoc Lodge; hanner lled y Gefnffordd (yr A470) wrth ochr Parc a Gardd Hanesyddol Plas Madoc ac i'r de o Depo Asiantaeth yr Amgylchedd; oll ym mherchenogaeth Dr P. Higson (Plotiau 4, 4a, 5 a 6).

Rhan o hanner lled y Gefnffordd (yr A470), coetir a gwely a glannau'r nant ddiennw i'r gorllewin o'r Gefnffordd (yr A470) ac i'r gogledd o'r eiddo a elwir Plas Madoc Lodge; oll mewn perchenogaeth anhysbys (Plot 7).

Rhan o hanner lled y Gefnffordd (yr A470), coetir, tir pori a gwely a glannau'r nant ddiennw i'r gorllewin o'r Gefnffordd (yr A470) ac i'r de o'r eiddo a elwir Tan Lan Crossing; oll ym mherchenogaeth Mrs L. M. Jones a Mr G. L. Williams (Plotiau 8, 8a, 9, 9a a 9b).

Tir pori i'r gorllewin o'r Gefnffordd (yr A470) ac i'r de o'r eiddo a elwir Tan Lan Crossing; tir gwastraff, m,an ag wyneb arno a hanner lled y briffordd nas mabwysiadwyd a'r llwybr troed cyhoeddus cydfodol sy'n arwain at Groesfan Reilffordd Tan Lan, i'r de-orllewin o'r gyffordd rhwng y briffordd nas mabwysiadwyd sy'n arwain at Groesfan Reilffordd

Tan Lan a'r Gefnffordd (yr A470); oll ym mherchenogaeth Dŵr Cymru (Plotiau 10, 12, 12a a 12b).

Rhan o ardd ddatgysylltiedig yr eiddo a elwir 2 Tan Lan rhwng y Gefnffordd bresennol (yr A470) a Llinell Reilffordd Blaenau Ffestiniog i Gyffordd Llandudno ac i'r de o'r eiddo a elwir Tan Lan Crossing; oll ym mherchenogaeth Mr A. a Mrs L. Williams (Plotiau 11 ac 11a).

Mynedfa i garej i'r de o'r briffordd nas mabwysiadwyd ac sy'n arwain at Groesfan Reilffordd Tan Lan; hanner lled y briffordd nas mabwysiadwyd a'r llwybr troed cyhoeddus cydfodol sy'n arwain at Groesfan Reilffordd Tan Lan a rhan o ardd ddatgysylltiedig yr eiddo a elwir 3 Tan Lan, i'r de o'r briffordd nas mabwysiadwyd ac sy'n arwain at Groesfan Reilffordd Tan Lan; oll ym mherchenogaeth Mr J. A. a Mrs A. Taylor (Plotiau 13 a 13a).

Rhan o hanner lled y briffordd nas mabwysiadwyd a'r llwybr troed cyhoeddus cydfodol sy'n arwain at Groesfan Reilffordd Tan Lan ynghyd â'r fynedfa o'r briffordd nas mabwysiadwyd ac sy'n arwain at Groesfan Reilffordd Tan Lan i'r cae i'r gogledd o'r eiddo a elwir Tan Lan Crossing; rhan o'r maes parcio i'r gogledd o'r briffordd nas mabwysiadwyd ac sy'n arwain at Groesfan Reilffordd Tan Lan; oll ym mherchenogaeth Plas Madoc Fishing Association (Plotiau 14, 14a a 14b).

Yr holl fuddiannau mewn rhan o hanner lled y briffordd nas mabwysiadwyd a'r llwybr troed cyhoeddus cydfodol sy'n arwain at Groesfan Reilffordd Tan Lan ynghyd â thir a ddefnyddir fel corlan crynhoi anifeiliaid i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd rhwng y briffordd nas mabwysiadwyd ac sy'n arwain at Groesfan Reilffordd Tan Lan a'r Gefnffordd (yr A470) ac eithrio'r rhai ym mherchenogaeth Gweinidogion Cymru; oll ym mherchenogaeth Gweinidogion Cymru (Plotiau 15 a 15a).

Tir pori i'r gorllewin o'r Gefnffordd (yr A470) ac i'r gogledd o'r eiddo a elwir Tan Lan Crossing; yr hawl i fynd ar dir pori i'r gorllewin o'r Gefnffordd (yr A470) ac i'r gogledd o'r eiddo a elwir Tan Lan Crossing at bob diben hysbys sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw arglawdd a chynnal a chadw ffos draenio gyfagos; yr hawl i fynd ar dir pori i'r gorllewin o'r Gefnffordd (yr A470) ac i'r gogledd o'r eiddo a elwir Tan Lan Crossing at bob diben hysbys sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw 135 metr llinellol o ffos draenio agored; oll ym mherchenogaeth Mr T. T. a Mrs M. O. Williams (Plotiau 16, 16a, 16b, 16c, 16d, 16e, 16f, 16g, 16h a 17).

Tir âr, tir pori, coetir, a rhan o'r briffordd nas mabwysiadwyd ac sy'n arwain at Groesfan Reilffordd Tyn Ddôl, y cwt dur rychog a rhan o hanner lled glan a gwely'r nant ddiennw rhwng y Gefnffordd (yr A470) a Llinell Reilffordd Blaenau Ffestiniog i Gyffordd Llandudno, i'r gorllewin o'r eiddo a elwir Tyn Ddôl; priffordd nas mabwysiadwyd ac sy'n arwain at Groesfan Reilffordd Tyn Ddôl, ynghyd â rhan o goetir cyfagos a thir âr; yr hawl i fynd ar dir âr a thir pori rhwng y Gefnffordd (yr A470) a Llinell Reilffordd Blaenau Ffestiniog i Gyffordd Llandudno, i'r de-orllewin o'r eiddo a elwir Tyn Ddôl at bob diben hysbys sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw arglawdd; yr hawl i fynd ar dir âr, tir pori, coetir a rhan o'r briffordd nas mabwysiadwyd ac sy'n arwain at Groesfan Reilffordd Tyn Ddôl rhwng y Gefnffordd (yr A470) a Llinell Reilffordd Blaenau Ffestiniog i Gyffordd Llandudno, i'r gorllewin o'r eiddo a elwir Tyn Ddôl at bob diben hysbys sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw ffos draenio gyfagos; yr hawl i fynd ar dir âr, tir pori, y briffordd nas mabwysiadwyd ac sy'n arwain at Groesfan Reilffordd Tyn Ddôl a hanner lled glan a gwely nant ddiennw rhwng y Gefnffordd (yr A470) a Llinell Reilffordd Blaenau Ffestiniog i Gyffordd Llandudno, i'r gorllewin o'r eiddo a elwir Tyn Ddôl at bob diben hysbys sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw cwlferd a 400 metr llinellol o ffos draenio agored ac er mwyn cysylltu'r ffos newydd â'r nant ddiennw bresennol; yr hawl i fynd ar dir âr a thir pori i'r gogledd o'r briffordd nas mabwysiadwyd ac sy'n arwain at Groesfan Reilffordd Tyn Ddôl at bob diben hysbys sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw arglawdd; yr hawl i fynd ar dir âr a thir pori rhwng y Gefnffordd (yr A470) a Llinell Reilffordd Blaenau Ffestiniog i Gyffordd Llandudno, i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir Tyn Ddôl at bob diben hysbys sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw arglawdd a ffens atal dyfrgwn; yr hawl i fynd ar dir âr, tir pori a hanner lled glan a gwely nant ddiennw rhwng y Gefnffordd (yr A470) a Llinell Reilffordd Blaenau Ffestiniog i Gyffordd Llandudno, i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir Tyn Ddôl at bob diben hysbys sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw arglawdd, cwlferd a ffens atal dyfrgwn; oll ym mherchenogaeth Mrs G. W. Evans a Mr I Evans (Plotiau 18, 18a, 18b, 18c, 18d, 18e, 18f, 18g, 18h a 18i).

Tir pori a hanner lled gwely a glan nant ddiennw i'r gorllewin o'r Gefnffordd (yr A470), i'r gogledd o'r eiddo a elwir Tyn Ddôl; tir pori i'r gorllewin o'r Gefnffordd (yr A470) ac i'r gogledd o'r eiddo a elwir Tyn Ddôl; yr hawl i fynd ar dir pori a hanner lled glan a gwely nant ddiennw i'r gorllewin o'r Gefnffordd (yr A470) ac i'r gogledd o'r eiddo a elwir Tyn Ddôl at bob diben hysbys sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw arglawdd, cwlferd a ffens atal dyfrgwn a

chynnal a chadw ffos draenio gyfagos; yr hawl i fynd ar dir pori a hanner lled glan a gwely nant ddiennw i'r gorllewin o'r Gefnffordd (yr A470) ac i'r gogledd o'r eiddo a elwir Tyn Ddôl at bob diben hysbys sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw 85 metr llinellol o ffos draenio agored a chysylltu'r ffos â'r nant ddiennw; yr hawl i fynd ar dir pori i'r gorllewin o'r Gefnffordd (yr A470) ac i'r gogledd o'r eiddo a elwir Tyn Ddôl at bob diben hysbys sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw arglawdd; yr hawl i fynd ar dir pori i'r gorllewin o'r Gefnffordd (yr A470) ac i'r gogledd o'r eiddo a elwir Tyn Ddôl at bob diben hysbys sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal a chadw arglawdd a ffos fas; oll ym mherchenogaeth Mr G. Jones (Plotiau 19, 19a, 19b, 19c, 19d, 19e, 19f, 19g, 19h, 19i a 19j).

M D BURNELL
YR IS-ADRAN CYNLLUNIO A GWEINYDDU
TRAFNIDIAETH
LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

GORCHYMYN PRYNU GORFODOL
CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU
(CEFNFFORDD CAERDYDD I LANCONWY
(YR A470) - GWELLIANT PENLOYN I DAN
LAN) 200-

DEDDF PRIFFYRDD 1980 a
DEDDF CAFFAEL TIR 1981

AT BERCHENOGION NEU BERCHENOGION
TYBIEDIG, LESDDEILIAID NEU
LESDDEILIAID TYBIEDIG, TENANTIAID NEU
DENANTIAID TYBIEDIG A MEDDIANWYR Y
TIR A DDISGRIFIR ISOD A PHERSONAU
SYDD Â BUDDIANNAU CYMWYS ERAILL
YNDDO.

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi paratoi ar ffurf drafft 'Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) - Gwelliant Penloyn i Dan Lan) 200-', o dan adrannau 239, 240, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981, a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno. Maent ar fin gwneud y Gorchymyn hwn ac, os caiff ei wneud, bydd y Gorchymyn yn awdurdodi

Gweinidogion Cymru i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd a ddisgrifir isod er mwyn: -

- (i) adeiladu'r gefnffordd newydd i'r gogledd o Lanrwst rhwng Penloyn a Than Lan yng Nghymunedau Llanrwst a Llanddoged a Maenan ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn unol â Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan) 200-;
- (j) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynedfeydd newydd i fangreoedd yng Nghymuned Llanddoged a Maenan a Bwrdeistref Sirol Conwy yn unol â Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan, Ffyrdd Ymyl) 200-;
- (k) gwneud gwaith ar gyrсияu dŵr mewn cysylltiad ag adeiladu'r gefnffordd newydd ac adeiladu a gwella priffyrdd eraill a gwneud y gwaith arall a grybwyllwyd uchod;
- (ch) eu defnyddio gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwella'r priffyrdd hynny a gwneud y gwaith arall a grybwyllwyd uchod; a
- (l) lliniaru unrhyw effeithiau andwyol a fydd gan fodolaeth rhai o'r priffyrdd y bwriedir eu hadeiladu neu eu gwella neu'r defnydd o'r priffyrdd hynny ar eu hamgylchoedd.

2. Mae copi o'r Gorchymyn drafft a'r map sydd gydag ef wedi'u hadneuo a gellir eu gweld ar bob adeg resymol o 5 Gorffennaf 2007 i 26 Gorffennaf 2007 yn y manau canlynol:

- Y Gangen Orchmynion, Yr Is-adran Polisi a Gweinyddu Trafnidiaeth, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd;
- Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adeiladau'r Llywodraeth, Dinerth Road, Bae Colwyn; a
- Llyfrgell Llanrwst, Plas yn Dre, Ffordd-yr-Orsaf, Llanrwst.

3. Os na wneir unrhyw wrthwynebiad perthnasol (fel y'i diffinnir ym mharagraff 4(6) o Atodlen 1 i Ddeddf Caffael Tir 1981), neu os caiff pob gwrthwynebiad o'r fath ei dynnu'n ôl, neu os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod pob gwrthwynebiad o'r fath yn

ymwneud â materion iawndal y gall y Tribiwnlys Tiroedd ymdrin â hwy, caiff Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn Prynu Gorfodol gydag addasiadau neu hebddynt.

4. Ym mhob achos arall lle gwnaed gwrthwynebiad perthnasol na chafodd ei dynnu'n ôl na'i ddiystyru, mae'n ofynnol i' Weinidogion Cymru, cyn gwneud y Gorchymyn, gymryd un o'r camau canlynol:

- (i) peri bod Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus yn cael ei gynnal;
- (ii) rhoi cyfle i'r gwrthwynebydd ymddangos gerbron person a benodir gan Weinidogion Cymru at y diben a chael gwrandawriad ganddo; neu
- (iii) gyda chydsyniad y gwrthwynebydd, dilyn gweithdrefn sylwadau ysgrifenedig.

5. Wedyn caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried y gwrthwynebiad ac adroddiad y person a gynhaliodd yr ymchwiliad neu'r gwrandawriad neu a ystyriodd y sylwadau ysgrifenedig, gwneud y Gorchymyn gydag addasiadau neu hebddynt.

6. Rhaid i unrhyw wrthwynebiad i'r Gorchymyn drafft gael ei wneud mewn ysgrifen a chael ei gyfeirio at y Gangen Orchmynion, Is-adran Polisi a Gweinyddu Trafnidiaeth, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ cyn 26 Gorffennaf 2007, gan roi teitl y Gorchymyn, y cyfeirnod BZ 780030-312-1, seiliau'r gwrthwynebiad a chyfeiriad y gwrthwynebydd a'i fuddiannau yn y tir. Wrth baratoi gwrthwynebiad a datganiad o sail y gwrthwynebiad, dylid cadw mewn cof y gellir rhoi gwybod beth yw sylwedd unrhyw wrthwynebiad neu sylw i bobl eraill y gall y gwrthwynebiad neu'r sylw effeithio arnynt.

7. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft a'r hysbysiad cyhoeddus yn <http://new.wales.gov.uk/legislation/?lang=cy> (dewiser 'Deddfwriaeth/Deddfwriaeth ddrafft/Offerynnau Anstatudol Drafft/Ymylon Ffyrdd a Gorchmynion Prynu Gorfodol yn unol â'r Ddeddf Priffyrdd').

8. Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan y Gangen Orchmynion, Yr Is-adran Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

DISGRIFIAD O'R TIR

SYLWER

- c. mae'r tir ym mhob eitem isod wedi'i ddynodi ar y map y cyfeirir ato yn y Gorchymyn drafft â'r rhif neu'r rhifau a welir gyferbyn â'r eitem honno isod.
- d. mae cyfeiriadau at berchenogaeth yn gyfeiriadau at berchenogaeth neu berchenogaeth honedig adeg paratoi'r Gorchymyn drafft a dim ond at ddibenion adnabod y tir y maent wedi'u nodi.

Yng Nghymuned Llanddoged a Maenan

Rhan o hanner lled y Gefnffordd (yr A470), coetir a gwely a glannau'r nant ddiennw i'r gorllewin o'r Gefnffordd (yr A470) ac i'r gogledd o'r eiddo a elwir Plas Madoc Lodge; oll mewn perchenogaeth anhysbys (Plot 7).

Dyddiedig 2 Gorffennaf 2007

**M D BURNELL
YR IS-ADRAN CYNLLUNIO A GWEINYDDU
TRAFNIDIAETH
LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU**